BRITISH COUNCIL eTwinning Erasmus+

BRITISH COUNCIL eTwinning Erasmus+

# Beth

Mae eTwinning yn rhwydwaith ar-lein sy'n ddiogel ac am ddim, lle gall athrawon o fwy na 40 o wledydd ddod o hyd i bartneriaid, gweithio ar brosiectau, rhannu arfer gorau a galluogi disgyblion i gydweithio â'i gilydd. Mae eTwinning yn rhan o raglen Erasmus+ ar gyfer ysgolion, sy'n darparu cyllid Undeb Ewropeaidd; gan alluogi staff i hyfforddi ac addysgu dramor.

# Pam

Mae hanfodion y Cwricwlwm am Oes yn rhan annatod o eTwinning. Mae'r llwyfan sy'n ddiogel ac am ddim wedi ei greu yn bwrpasol i alluogi ysgolion i ddod o hyd i bartneriaid addas a chefnogi gwaith y cwricwlwm mewn ffordd gynhwysol, ar draws diwylliannau, sectorau a meysydd pwnc – yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Bydd eTwinning ac Erasmus+ yn cefnogi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn benodol drwy wneud y canlynol:

- Datblygiad proffesiynol am ddim ac wedi'i ariannu: gweithdai wyneb yn wyneb ac ar-lein i feithrin sgiliau ar-lein athrawon er mwyn iddynt allu rhyngweithio, cydweithio, storio a rhannu gwaith – o fewn amgylchedd diogel.
- Unwaith y bydd athrawon yn ddigon medrus, gallant wahodd myfyrwyr i ofod unigryw a diogel ar-lein i weithio ar eu prosiect eu hunain sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Mae'r gofod hwn yn caniatâu i fyfyrwyr gyfathrebu, cydweithio a datrys problemau ochr yn ochr â chynulleidfa o gyfoedion o ysgolion eraill, gan ddysgu ieithoedd o fewn cyd-destun gwirioneddol, gan gefnogi ethos +1 dwyieithog Dyfodol Byd-eang a helpu myfyrwyr i ddysgu sut i fyw a gweithio mewn byd ar-lein a digidol.
- Gellir gwneud tudalennau gwe o fewn llwyfan eTwinning yn gyhoeddus neu'n breifat, sy'n helpu ysgolion i rannu gwaith myfyrwyr â rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned leol.

Mae gwelliant pendant pan fydd ganddynt gynulleidfa go-iawn – yn bendant, heb amheuaeth. Pan fyddant yn gwybod eu bod yn gweithio ar ran ysgol arall yn gyffredinol, neu i un o'u cyfoedion yn arbennig, mae eu llygaid craff yn rhyfeddol. Nid ydynt am wneud camgymeriad. Maent eisiau ysgrifennu ac maent am iddo fod yn berffaith.

**Ruth Sanders, Ysgol Arbennig Gymunedol Felindre, Port Talbot, Cymru.**

Dywedodd **Emily Daly, cynghorydd ieithoedd tramor ar gyfer Cyngor Dinas Caerdydd** wrth sôn am y prosiect Erasmus+ 'Annog Dysgu yn yr Awyr Agored', lle mae'r Cyngor yn arwain consortiwm o 18 ysgol ar draws saith awdurdod lleol yn Ne Cymru: "Mae Erasmus+ yn gyfle perffaith i'r 48 o athrawon sy'n cymryd rhan rannu syniadau a phrofiadau, gan gyflawni amcan Llywodraeth Cymru i ehangu gwaith rhwng cymheiriaid mewn ysgolion. Gall addysgu ysbrydoledig ond dod o athrawon sydd wedi'u hysbrydoli ac sydd â diddordeb. Mae'r math hwn o brosiect yn cael effaith bositif ar y staff a'r myfyrwyr."

**Am ragor o wybodaeth, ewch i:**
www.britishcouncil.org/eTwinning/funding
@eTwinningUK

Pob delwedd © British Council

# Sut gall eich ysgol elwa o eTwinning ac Erasmus+



Byddai

**98%**

o staff ysgol a gymerodd ran yn **Erasmus+** yn ei argymell i gydweithiwr, ar gyfer dysgu arfer da o dramor, cyflwyno dulliau addysgu newydd, cynyddu boddhad swydd a gwella cyfleoedd gyrfa, dim ond ar ôl wythnos yn hyfforddi dramor.




Mae

**50%**

o ysgolion yn y DU a dderbyniodd gyllid Erasmus+ yn 2016 yn defnyddio **eTwinning** i gefnogi eu prosiectau.

Cyd-ariennir eTwinning gan raglen Erasmus+ yr Undeb Ewropeaidd a chaiff ei rheoli gan y British Council yn y DU.

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig dros gyfleoedd addysgol a chydberthnasau diwylliannol.



# **Sut** gall y llwyfan eTwinning gefnogi eich taith ryngwladol

## YMUNO
am ddim yn
**www.etwinnig.net**

## CHWILIO
am bartner a chofrestru prosiect sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, oll drwy'r rhyngrwyd ac o'ch ystafell ddosbarth.

## TRAFOD
eich prosiect sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm gyda'ch partner.

## COFRESTRU
eich prosiect a sicrhau lefel sylfaen y International School Award ar gyfer eich ysgol.


## GWELLA SGILIAU
drwy gyfleoedd datblygiad proffesiynol eTwinning am ddim ac wedi'u hariannu.

## CYSGODI SWYDD
ac ewch â'ch partneriaeth ymhellach: defnyddiwch y School Education Gateway i ddod o hyd i gyrsiau Erasmus+ neu gyfleoedd i gysgodi athrawon partner yn y dyfodol.

## GWNEUD CAIS
ar gyfer cyllid Erasmus+ KA1 ac ymunwch â'r 77% o ymgeiswyr addysg ysgol a oedd yn llwyddiannus yn gwneud cais am bron i €3m mewn grantiau Undeb Ewropeaidd yn 2015.

## TEITHIO
drwy Erasmus+ i un neu fwy o ysgolion ledled Ewrop. Cyfnewid arfer gorau a dysgu dulliau addysgu newydd.

## CYDWEITHIO
gan ddefnyddio gofod ac adnoddau ar-lein diogel eTwinning fel gweminar cynadledda, ystafelloedd sgwrsio a blogiau i gefnogi eich prosiect, cyfarfod â'ch partner, cadw a rhannu eich gwaith prosiect.




Am ragor o wybodaeth, ewch i:
www.britishcouncil.org/eTwinning/funding @eTwinningUK